# Arolygiad o dan Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005

## Ysgol Yr Hendre
## Caernarfon.  LL55 2LY

**Rhif yr Ysgol:  6612119**

**Dyddiad yr Arolygiad:  19/03/07**

**gan**

**Edward Goronwy Morris**
**78283**

**Dyddiad Cyhoeddi:  24/05/07**

**Dan rif contract Estyn:  1109606**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig**

101. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn nodwedd ragorol. Hyrwyddir hyn drwy'r cwricwlwm ; yr arddangosfeydd gwaith, lle gwelir balchder yn eu treftadaeth ac hefyd ymwybyddiaeth o faterion byd eang megis apartheid; drwy'r Cyngor Ysgol lle ceir cyfleoedd i addysgu am ddinasyddiaeth; drwy'r Criw Clên a rheolau dosbarth Llond Llaw, ac yn y gwasanaethau lle ceir cyfleoedd i fyfyrio'n dawel, a chyfrannu .

102. Mae gan yr ysgol amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol, megis yr Urdd, ffeiriau, cyngherddau, a nifer dda o ymweliadau. Yn ychwanegol mae'r ysgol yn rhoi profiadau da i'r disgyblion drwy drefnu cyfraniadau i achlysuron cymunedol ac i elusennau. Mae y cysylltiadau hyn yn ymgyfoethogi profiadau addysgol a datblygiad personol y disgyblion, ac yn eu paratoi i ddyfod yn aelodau cyfrifol o'u cymuned. Tystiolaeth amlwg o hyn yw aeddfedrwydd a chwrteisi y disgyblion ar frig yr ysgol.

## Addysg grefyddol

**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: nodweddion da a dim ddiffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: nodweddion da a dim ddiffygion pwysig**

### Nodweddion da

198. Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r disgyblion yn ymwybodol fod y Beibl yn lyfr arbennig i'r Cristion. Maent yn gallu dwyn i gof ac ailadrodd ar lafar nifer dda o hanesion y Beibl. Maent yn gwybod am y gwyliau Cristnogol a gallant drafod e.e. digwyddiadau'r Nadolig a'r Pasg yn wybodus.

199. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 a 2, yn ymweld ag addoldai yn y gymuned. Mae hyn yn ychwanegu llawer at eu gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion Cristnogol. Trafodant symbolau crefyddol yn dda.

200. Dônt i ddeall bod crefyddau arall heblaw Cristnogaeth yn cael eu harfer ar draws y byd. Medrant sôn am rai o arferion sy'n bwysig i'r Hindŵ ac am hanesion sy'n gysylltiedig â'r ffydd Hindŵaidd.

201. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn mynegi barn yn dda ar bynciau megis gofal a chyfeillgarwch, ac maent yn ymwybodol o amgylchiadau bywyd pobl sy'n llai ffodus na hwy eu hunain.

202. Yn cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn deall mai Cristnogaeth yw prif grefydd Cymru a gallant siarad am rai nodweddion bywyd y Cristion a disgrifio gwasanaeth grefyddol yn effeithiol. Gallant drafod yn hyderus iawn nifer o lyfrau o'r Testament Newydd a'r Hen Destament.

203. Mae eu gwybodaeth o grefyddau eraill yn datblygu'n dda a gallant drafod y prif nodweddion a'r ffordd o fyw. Medrant enwi a disgrifio gwahanol wrthrychau a ddefnyddir gan egluro eu pwrpas a'u hystyr.

204. Gall disgyblion cyfnod allweddol 2, ddisgrifio nodweddion ym mywydau enwogion, megis Martin Luther King, Nelson Mandela a Mari Jones, sydd wedi bod yn arweinwyr pwysig neu wedi achosi newidiadau yn y byd.

205. Trafodant syniadau dyngarol yn ddeallus gan fynegi barn yn glir. Maent yn datblygu dealltwriaeth amlwg o arwyddocâd gofalu am ein byd.

206. Ysgrifennant weddïau personol o ansawdd da ac fe'u cyflwynant i eraill ac maent yn deall pwrpas gweddi.